

Cynllunio ar gyfer rhagor o gyfyngiadau symud llawn neu rannol

Dysgu ac Addysgu

Dengys canfyddiadau ymchwil o'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud fod meysydd sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o ymrwymiad gan ddisgyblion yn cynnwys y canlynol:

- Meddu ar lwyfan effeithiol ar gyfer rhannu gwaith gyda disgyblion a derbyn gwaith wedi'i gyflwyno, megis rhith-amgylchedd dysgu.
- Darparu ar gyfer gwarsi ar-lein, ac ar gyfer rhyngweithio rhwng disgyblion ac athrawon a rhwng disgyblion a disgyblion eraill
- Sicrhau bod cyfarwyddiadau/disgwyliadau'n glir fel bod disgyblion (a rhieni) yn gwybod beth sy'n rhaid ei wneud.
- Darparu gweithgareddau sy'n cynnwys cyfnerthu dysgu
 - Roedd nifer o rieni wedi'i chael hi'n haws cefnogi dysgu gydag adnoddau copi caled.
 - Roedd adnoddau pecynnau papur yn ddefnyddiol wrth gefnogi rhai disgyblion ADY.
- Defnyddio strategaethau sy'n canolbwyntio ar helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.
 - Ymagweddau metawybyddol (deall y broses - sut a pham) - gall athrawon gefnogi metawybyddiaeth disgyblion drwy "feddwl yn uchel" wrth fodelu a datrys problemau. Gall arddangosiadau fideo byr fod yn ddefnyddiol.
 - Hunan-reoli (annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb wrth drefnu eu dysgu - arferion da, pryd i ddysgu, cymryd egwylliau, cwblhau asesiadau a bodloni terfynau amser, ymarfer corff dyddiol a darllen er pleser, rheoli amser ar y sgrîn, mynd i'r gwely mewn pryd etc.)
- Ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni

Cynllunio/cwestiynau ar gyfer ysgolion

- Pa mor barod yw ein disgyblion i weithio gartref unwaith eto?
 - Ydyn nhw'n ddigon cyfarwydd â sut i gyrchu gwaith a'i gyflwyno drwy ein systemau digidol (amgylcheddau dysgu rhithwir, e-bost, gwefannau etc.)
 - Os ydym yn bwriadu defnyddio sesiynau/gwarsi byw, a yw disgyblion a staff wedi'u hyfforddi'n ddigon da i ddefnyddio MS Teams?
- Oes ganddyn nhw'r cyfarpar i addysgu'n effeithiol o'r cartref? Pa hyfforddiant sydd ei angen arnynt?
- A fydd gan ddisgyblion gyfarpar digidol digonol i gefnogi'u dysgu wrth iddynt aros gartref?
 - Ydyn ni'n gwybod pa ddisgyblion/deuluoedd y bydd angen cymorth arnynt i gyrchu gwaith drwy ffyrdd digidol?
 - Sut byddwn yn sicrhau y bydd cyfarpar ar gael pan fydd ei angen?
- Allwn ni wneud defnydd effeithiol o adnoddau copi caled i gefnogi dysgu disgyblion gartref?
 - Er enghraifft, a allai pecynnau papur a baratowyd ymlaen llaw gael eu defnyddio i ganiatáu ar gyfer ymarfer adalw a chadarnhau gwybodaeth mewn meysydd allweddol fel iaith a mathemateg.
 - Ydyn ni'n gallu darparu adnoddau eraill fel gwarslyfrau, llyfrau darllen neu ganllawiau adolygu etc.?
- Pa gefnogaeth ychwanegol allwn ni ei rhoi i'r disgyblion mwyaf difreintiedig y mae'n debygol bod y gyfyngiadau symud cychwynnol wedi effeithio fwyaf arnynt, sydd hefyd yn debygol o ddioddef fwyaf o amhariadau yn y dyfodol?
- Sut gallwn gefnogi disgyblion ADY/SIA/CLI ag unrhyw anghenion penodol - digidol neu fel arall?
- Os bydd cyfnod arall o gyfyngiadau symud rhannol, sut byddwn yn rheoli'r cydbwysedd o ddysgu yn yr ysgol ac o bell?
- Sut byddwn yn cyflwyno cydbwysedd da (ymagwedd deiet cymysg) o ddysgu rhyngweithiol, gweithgareddau atgyfnerthu a chefnogi ymagweddau metawybyddol/hunanreoleiddio disgyblion?

- Os ydym yn ffrydio'n fyw, allwn ni wneud defnydd effeithiol o Gynorthwyr Addysgu neu staff atodol eraill i gefnogi disgyblion mewn sesiynau drwy, er enghraifft, ymateb i gwestiynau yn y swyddogaeth sgwrsio?
- Pa mor dda ydyn ni'n cyfathrebu â rhieni?
 - Ydyn ni'n cyfathrebu'n glir â rhieni fel eu bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig yn ystod cyfyngiadau symud?
 - Allwn ni gefnogi rhieni i helpu disgyblion i gynnal arferion dysgu da (hunan-reoli)?
 - Beth yw ein dull o weithredu os nad yw disgyblion yn ymgysylltu wrth weithio gartref?

Meddwl am eich dysgu

Adeiladu ar wybodaeth flaenorol a sgiliau

- A oes gan ddisgyblion yr wybodaeth a'r sgiliau hanfodol yn barod i gefnogi eu dysgu yn y pwnc hwn?
- Os na, beth sydd angen i mi ei wneud i baratoi disgyblion ar gyfer y dasg/ta sgau?
- Pa ystyriaeth sydd angen i mi ei rhoi i wahaniaethu gwaith i ddysgwyr ag ADY a SIY?

Darparu cyfarwyddiadau clir

- A yw disgyblion yn deall yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud?
- Pa offer ac adnoddau sydd eu hangen arnynt; a oes ganddynt fynediad atynt?

Modelu a sgaffaldio

- Ydw i'n egluro, yn arddangos ac yn sgaffaldio'r gwaith yn ddigon da i ddisgyblion?
- A yw fy enghreifftiau a'm hesboniadau wedi'u dewis yn dda i ddatgelu pwyntiau dysgu allweddol ac i ganfod camsyniadau a phroblemau cyffredin?

Gweithgareddau ac adnoddau

- A yw fy ngweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda i ganiatáu atgyfnerthu gwybodaeth a datblygiad yn nysgu'r disgyblion?
- Ydw i'n defnyddio dulliau amrywiol sy'n cefnogi mynediad i wahanol ddysgwyr e.e. y rhai ag SIY neu ADY?
- A oes gan ddisgyblion ddigon o gyfleoedd ar gyfer ymarfer adalw gwybodaeth o ansawdd (strategaethau bylchu ac adalw a ddefnyddir i atgyfnerthu'r dysgu dros gyfnod amser ac er mwyn osgoi anghofio gwybodaeth)
- Ydw i'n gofyn i ddisgyblion ddangos beth maen nhw wedi'i ddysgu yn hytrach na'r hyn y maent wedi ei wneud?

Adborth ac asesu

- Ydw i'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wirio eu gwaith, gweld gwahanol atebion a gweld gwaith enghreifftiol?
- Ydw i'n monitro ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn eu dysgu yn ddigon da?
- Sut ydw i'n gwybod eu bod nhw'n gwybod e.e. defnydd o gwestiynu/asesiadau/cwisiau ac ati? Ydw i'n rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion i gefnogi'u dysgu?

Dysgu Cyfunol - arfer effeithiol sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd

Gall y senarios canlynol eich helpu i wneud penderfyniadau ar yr ymagweddau dysgu cyfunol mwyaf effeithiol, gan ddibynnu ar sefyllfaoedd gwahanol.

Senario 1 - Y mwyafrif, neu'r holl ddisgyblion yn mynd i'r ysgol/yr athro yn yr ysgol fel arfer

- Addysgu wyneb yn wyneb yn digwydd
- Dylai dysgwyr ddefnyddio llwyfan digidol addas (Hwb, Teams, Google Classroom, J2E) i gwblhau rhai tasgau pan fydd yn bosib dod i'r arfer â'r system
- Caiff dysgwyr sydd gartref eu cyfeirio at adnoddau ar-lein, fel www.swanseavirtualschool.org, Oak National Academy

Senario 2 - Y rhan fwyaf o'r disgyblion gartref/yr athro yn yr ysgol

- Gall addysgu wyneb yn wyneb ddigwydd ar gyfer y dysgwyr yn y dosbarth
- Dylai bod y dysgwyr gartref yn gallu cyrchu'r gwaith trwy fynd ar lwyfan y cytunwyd arni ar Hwb neu trwy becynnau papur eraill. Dylai hyn ddigwydd yn anghydamserol trwy ddefnyddio ymarferion cadarnhau, sesiynau wedi'u recordio a/neu weithgareddau ymchwilio
- Ymagwedd dysgu wyneb i waered
- Caiff dysgwyr sydd gartref eu cyfeirio at adnoddau ar-lein, fel www.swanseavirtualschool.org, Oak National Academy

Senario 3 - Y dosbarth gartref/yr athro yn yr ysgol

- Dylai bod dysgwyr yn gallu cyrchu gwaith trwy lwyfan y cytunwyd arni ar Hwb neu trwy becynnau papur eraill.
- Ymagweddau anghydamserol - sesiynau wedi'u recordio, gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu
- Ymagweddau cydamserol - sesiynau byw (Teams/G-suite) ar gyfer gwiriadau bugeiliol/dysgu (un aelod o staff ac yn cael eu recordio)
- Ymagwedd dysgu wyneb i waered

Senario 4 - Y dosbarth gartref/yr athro gartref (naill ai oherwydd cyfyngiadau symud rhannol neu llawn)

- Dylai bod dysgwyr yn gallu cyrchu gwaith trwy lwyfan y cytunwyd arni ar Hwb neu trwy becynnau papur eraill.
- Ymagweddau anghydamserol - sesiynau wedi'u recordio, gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu
- Ymagweddau cydamserol - sesiynau byw (Teams/G-suite) ar gyfer gwiriadau bugeiliol/dysgu (dau aelod o staff ac yn cael eu recordio)
- Ymagwedd dysgu wyneb i waered

Senario 5 - Y dysgwyr gartref/yr athro'n sâl

- Dylai bod dysgwyr yn gallu cyrchu gwaith trwy lwyfan y cytunwyd arni ar Hwb neu becynnau papur eraill.
- Caiff dysgwyr sydd gartref eu cyfeirio at adnoddau ar-lein, fel www.swanseavirtualschool.org, Oak National Academy, BBC Bitesize